Cofnodion Cyngor yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Iau Mawrth 12 2020 am 7:00 o'r gloch
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, T.W.Jones, E.R.Noble, C.L.Price, M.Skerrett, Marion L Hughes, C.Brewer.
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion Cyngor 9.1.2020, cynnig M.L.Hughes, cefnogi C.L.Price.

Yr Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Trafodwyd safleoedd ble mae angen arwyddion – gwaelod y Bwlch i nodi'r ffordd i Roman Bridge; gosod arwydd 'Dim Sbwriel' yn yr arosfan cyn cyrraedd Pont Bertheos ac arwydd i nodi fod toiledau ymlaen yn Nolwyddelan. Mae Liz Roberts yn parhau mewn cysylltiad rheolaidd ag A.Owen a Karl Jones i drafod yr A470 yn Nyffryn Lledr. Roedd hi, M.Skerrett a'r Clerc wedi bod yn cwyno yn gryf am y sefyllfa beryglus gyda'r gwaith ar yr A470 yn arbennig ar Sgwar y pentref, y rhwystrau sydd wedi ei gosod yno yn rhy ysgafn ac yn cael eu symud yn hawdd fel bod y tyllau yn y ffordd yn broblem fawr i yrrwyr. (Roedd y mater yma wedi ei drafod yn fanwl mewn cyfarfod gyda swyddogion yn y cyfarfod cyn y Cyngor). Atebiad gan T.Barnes Llywodraeth Cymru yn dweud fod adolygiad ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd yn cymryd lle eleni ac y bydd cwynion y Cyngor lleol am or-yrru yn cael eu hystyried yn yr adolygiad.

Cyngor Sir. Adroddiad manwl gan Kevin Jones CBSC yn cadarnhau fod gwaith wedi'i gwblhau yn yr ardal yn ddiweddar a bod rhagor ar y gweill. C.Brewer wedi cyfarfod â M.Bardsley i drafod diogelwch a chyflwr y coed yn Iard yr Orsaf.

Llwybrau. Cytunwyd y dylai'r Clerc gynnig Mawrth 24 neu 26 ar gyfer cyfarfod gyda Ioan Davies. Fe wnaiff gysylltu â'r aelodau wedi cael dyddiad pendant gan Ioan.

Yr Orsaf. Deallwyd fod M.Lawton wedi symud i Wrecsam, neb wedi'i benodi yn ei lle hyd yma.

Siarter y Cyngor. Y Clerc a Liz Roberts wedi bod mewn Cyfarfod Fforwm yng Nglasdir Llanrwst Chwefror 5, cyfarfod buddiol, mae'n amlwg fod newidiadau yn cael eu trafod, 'clystyru' o bosibl? Mae'n amlwg fod y cyfrifoldebau a'r gofynion ar Gynghorau mawr a llai yn wahanol. Derbyniwyd holiadur ynglŷn â gwahanol feysydd mewn ardaloedd, y rhai perthnasol i'r Cyngor lleol oedd toiledau a'r maes chwarae?

Pont Carreg Alltrem. Atebiad gan M.Grant yn cadarnhau eu bod erbyn hyn wedi penderfynu gwneud y gwaith eu hunain fydd yn golygu newidiadau a chryfhau y tirwedd ar lan yr afon gerllaw y bont. Mae'n debygol mai yn ystod misoedd yr Haf y bydd y gwaith yn cymryd lle ac fe wnaiff hi gadw mewn cysylltiad a'r Cyngor lleol.

Gwasanaeth Bysiau. Dim sylwadau ond dywedodd T.W.Jones y dylid cadw y mater ar yr agenda gan fod parhad bws ysgol a gwasanaethau eraill yn bwysig. L.Roberts yn cadw golwg ar y drefn.

Biniau Cŵn. Cadarnhaodd y Clerc fod Alison Liederbach Bryn Moel wedi cytuno i wneud y gwaith, croesawyd hyn yn fawr, Clerc wedi cytuno i fynd i'w gweld wedi cyfnod o wneud y gwaith i edrych os oedd hi'n hapus gyda'r drefn.

Logo. Clerc heb drafod gyda B.Atkins gan fod cyflwr iechyd ei wraig Mary yn fregus iawn.

Pontydd yn yr Ardal. Llythyr wedi'i dderbyn gan drigolion o Roman Bridge ynglŷn â cyflwr Pont Sarn Ddu a'r ffordd gerllaw y bont, Clerc wedi anfon copi o'r llythyr at sylw B.Shiland CBSC. Cafwyd atebiad ganddo yn cadarnhau ei fod wedi cysylltu eto â Swyddfa y Parc i gael symud ymlaen, mae'n gobeithio cychwyn ar y gwaith yn Haf 2020.

Caffi Atgyweirio. Nodwyd cynnwys ymateb Mrs Helen Hardy.

Mainc Peter Owen. Dim cadarnhaol i'w adrodd, trafodwyd cael 'mainc blastig' eto – a fuasai un felly yn addas? Clerc i gysylltu eto â Bob Valintine, neges ganddo yn cadarnhau y buasai Menter Siabod yn ystyried cyfraniad.

'Cae Bach' Iard yr Ysgol. Derbyniwyd gwybodaeth gan Mrs Jones-Artell ynglŷn â chost y gwaith atgyweirio, mae Menter Siabod hefyd wedi cael copi. Y cyfanswm oddeutu £816 yn cynnwys TAW. Cynigodd M.Skerrett gyda C.L.Price yn cytuno y dylai'r Clerc geisio cael gwybod beth yn union yw'r sefyllfa cyn penderfynu sut i symud ymlaen o ran cyfraniad gan y Cyngor. Diddordeb gan E.R.Noble, T.W.Jones a Liz Roberts.

Ymweliad Paul Sagar. Dim ymateb pellach gan P.Sagar, Clerc i anfon ato i holi beth yw'r sefyllfa? Liz Roberts wedi bod yn edrych i mewn i gael goleuadau Nadolig ar rai o'r polion trydan hyd yr A470, mae P.Sagar wedi addo cynorthwyo gyda'r cysylltiadau trydan ar y polion. Mae posibilrwydd y buasai person o'r pentref yn eu gosod, Liz hefyd wedi trafod hyn gyda Dylan Richards Scottish Power, all ef hefyd gynorthwyo gyda hyn?

Ysgol Dolwyddelan. Derbyniwyd llythyr gan y Pennaeth Nia Jones-Artell yn diolch am y £1000 gan y Cyngor Cymuned; hefyd rhoes adroddiad am weithgareddau'r plant yn yr Ysgol.
Mae'r Pwyllgor Ffrindiau yn yr Ysgol wedi cael gwybod am y rhodd, maent yn trefnu helfa wyau Pasg a gweithgareddau eraill ar gyfer y flwyddyn.

Cyflwr ffordd. Gwybodaeth gan T.W.Jones fod y twll drwg yng ngwyneb y ffordd ar Bont Lein wedi cael ei lenwi gan Adran ERF CBSC.

Goleuo'r Goeden Nadolig. Deallwyd fod y 'pwyllgor' ffurfiwyd ar gyfer y digwyddiad wedi cyfarfod a chytunwyd y dylai M.Chapman, Liz Roberts a C.Brewer gynrychioli'r Cyngor arno. Roedd y pwyllgor wedi cyfarfod ar Chwefror 11 a derbyniwyd nodiadau ohono dros e.bost.

Gohebiaethau
Y Clerc wedi anfon copiau ymlaen llaw i'r aelodau, cafwyd sylwadau ar rai ohonynt:
Ailgylchu. Roedd Helen Hardy wedi anfon at CBSC i ofyn am y rhesymau dros symud y biniau ail gylchu mawr o Iard yr Orsaf. Cafwyd copi o ymateb Sam Rowlands oedd hefyd yn cadarnhau y bydd Swyddog Ailgylchu yn dod i'r Orsaf Chwefror 6 i ateb cwestiynau gan yr ardalwyr, trefnwyd yr ymweliad gan Liz Roberts. Bu criw da yn cyfarfod y swyddog ar y diwrnod.
Ail wynebu'r A470 at Bont yr Afanc. Roedd peth pryder am gau'r ffordd dros nos am wythnos ar gyfer hyn ond bydd y 'ffordd gefn' ar agor.

Cynlluniau.
Tŷ Llwyd: Wedi eu caniatau
Tan y Clogwyn: Wedi eu caniatau
1 Maes y Braich. Wedi eu caniatau
Rowans. Wedi eu caniatau
Pendyffryn. Wedi eu caniatau.
Llys y Gwynt: Dim gwrthwynebiadau.

Llifogydd. K.Phillips wedi ei gwahodd i'r cyfarfod ond gohiriwyd ei hymweliad gan fod trafod y gwaith trydan yn bwysicach ar hyn o bryd, fe wnaiff L.Roberts gysylltu â hi am adroddiad.

Toiledau. M.Skerrett wedi gohebu llawer gyda S.Teale ac wedi derbyn ymateb ar Fawrth 3, nid oedd CBSC yn hapus gyda rhai o'r amcangyfrifon (derbyniwyd 4) ac am geisio rhagor gan gontractwyr eraill. Cafwyd trafodaeth fanwl ar hyn gyda sawl un yn siomedig gyda'r sefyllfa. Cytunwyd y dylai'r is bwyllgor gyfarfod gyda S.Teale i geisio symud y prosiect ymlaen, M.Skerrett i drefnu.

Torri Gwair. Clerc wedi hysbysebu'r gwaith a derbyniwyd 2 gais, fe'u trafodwyd yn fanwl cyn i T.W.Jones gynnig a C.L.Price gefnogi, a pawb yn cytuno, y dylid cynnig y gwaith i Iwan Griffiths, Clerc i wneud y trefniadau gydag ef.

Y Fynwent/Gofgolofn. Cytunwyd i drefnu i gyfarfod yn y fynwent yn fuan yn y Gwanwyn i drafod cynllun Connie o ran creu yr 'Ardd Goffa' ac i gael golwg ar y waliau a'r coed sy'n amgylchynu'r fynwent. Roedd Ginge wedi addo ers tro ei fod yn barod i gael golwg ar gyflwr y coed a thorri rhai sydd mewn cyflwr peryglus. Cafwyd sylwadau gan Connie am gyfarfod fu yn nhir y Gofgolofn a dywedodd y buasai'n anfon manylion i'r Clerc.

C.Humphreys wedi cadarnhau na fydd ei weithwyr yn torri'r gwair yn y Gofgolofn yn y tymor newydd ond fe wnant gadw golwg ar y mwsogl. Bu trafodaeth fanwl ar gynnig Ginge i gael cadwyn o lechi (crawiau) yn y tir, un ar gyfer pob milwr lleol gollwyd yn y Rhyfeloedd Mawr. Cafwyd sawl sylw – a fydd problem eu cael o'u safle presennol (cysylltu ag I.Ellis efallai? – a fuasai rhai yn ysgrifennu arnynt? – oes digon ohonynt? Eto gan fod cymaint o gwestiynau cytunwyd mae'r unig ffordd i ddod i benderfyniad oedd i gyfarfod â Ginge yn nhir y Gofgolofn yn y Gwanwyn ac iddo ddod ag enghraifft o'r crawiau gydag ef ac egluro yn union sut roedd o yn meddwl y dylid eu gosod. Mae'n anodd ystyried unrhyw waith yn nhir y Gofgolofn heb benderfynu ar hyn. Roedd o eisoes wedi dweud wrth y Clerc na fyddai'n ystyried torri'r coed tra bod adar yn nythu a magu cywion. Mae hyn i gyd yn effeithio ar waith aelodau Dolwyddelan yn ei Blodau wrth gwrs. Clerc i drafod â Ginge ar gyfer trefnu cyfarfod ym mis Ebrill/Mai ac i adael i'r Aelodau wybod y dyddiad.

Ariannol. Clerc wedi dosbarthu yr adroddiad ariannol arferol i'r Aelodau ac fe'i trafodwyd.

Biliau. CBSC Sgip £240; N.Ferguson Gwefan £16.79; Aelodaeth Un Llais £94; Cyfieithu Cymunedol Mawrth 12 £103.60; CBSC Cyfarfod 12/3 £10; A.Liederbach gwagio biniau cwn £40; Clerc 1/1/20 – 31/3/20 £250; Rhoddion Ysgol Dolwyddelan, Ti a Fi, Cylch yr Ifanc, Clwb Ieuenctid, Sion a Sian 5x£100- £500. Biliau i'w talu cynnig L.Roberts cefnogi E.R.Noble. Wedi talu'r biliau bydd £8841.74 yn y cyfrif.

Tir Maes y Braich. Deallwyd fod y tir ar gyfer Maes y Braich wedi'i werthu gan Bob Parry, Clerc i holi am y prynwr oherwydd y sefyllfa gyda'r 'Japanese Knotweed' ar y safle.

Cyfarfodydd. Trafodwyd a oes modd strwythuro eu trefn i osgoi ail drafod rhai materion.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau Mai 7 2020 am 7pm.